Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl298

**Amseru:** Arferol

**Teitl:** Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru: Cyfraniadau cyllid presennol ac yn y dyfodol

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Ym mis Mawrth 2020, cytunodd Aelodau Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru (Aelodau'r Bwrdd Cyllido) i ariannu rôl Cydgysylltydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar y cyd, er mwyn cefnogi darpariaeth gyson o nifer o faterion cyfiawnder troseddol allweddol ledled Cymru.
Mae rôl y Cydgysylltydd wedi profi i fod yn fuddsoddiad effeithiol, fel y nodir gan y cyflawniadau a nodir yn yr adroddiad blynyddol. Mae hyn wedi arwain Aelodau'r Bwrdd Cyllido i gytuno mewn egwyddor i ariannu swydd y Cydgysylltydd yn flynyddol hyd at fis Mawrth 2025.
At hynny, yn ystod haf 2022, cytunodd Aelodau'r Bwrdd Cyllido mewn egwyddor i ddarparu cyllid ychwanegol i'w cyfraniadau cyllid presennol, i recriwtio rôl cynorthwyydd amser llawn a fydd yn cynorthwyo'r Cydlynydd ac yn galluogi cyflawni rhaglen waith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn effeithiol; bydd hefyd yn darparu cyllideb ddi-dâl briodol i gefnogi rhaglen waith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru.

Derbynnir cyfraniadau cyllid gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) De Cymru, CHTh Gwent, CHTh Dyfed Powys, CHTh Gogledd Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Leol Cymru. Cyfanswm y gost ar gyfer 2022/23 yw £72,000 a bydd pob partner yn talu £8,000 yr un. Cyfanswm y gost ar gyfer 2023/24 yw £110,000 gyda CHTh De Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn talu £20,000 yr un a phob partner arall £10,000.

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn cyfrannu £8,000 yn ôl-weithredol at gost cyfraniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a £10,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.
Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 10/05/23**